

THE PHYSICIANS OF MYDDFAI – TRANSLATIONS MISSING FROM PUGHE’S 1861 COPY

I WRAIG A FYTHO’N CAEL GORMOD O’I BLODAU

47. Cymmered droed ysgyfarnog, a llosged yn bylor, a chymmered ganel y bylor, y ddau hanner yn hanner, a doded mewn gwin coch, ag yfed o hono lwnc syched yn gyntaf a diweddaf nawniwarnod, a hi a gaiff les o hynny.

I WYBOD AM FORWYN AI BOD WEDI CADW EI MORWYNDOD AI NA BO

72. Cymmer bylor y milwydd a dod ar ei diod, agos ni bydd morwyn, hi a gyfyd i wneuthur dwr; os morwyn nid ysgyg.

I WYBOD PUN AI MAB AI MERCH A FO YNGROTH GWRAIG

73. Cais laeth bronn y wraig, a do def ar ei dwr hi ei hun, os nofio wna’r llaeth yn ucha, mab yw; o sir gwaelod yr â, merch yw.

RHAG HWYDD YNGWIALEN GWR

91 Cais ddail y gwinwydd, a brew, a gulch yn dda, yna cais ddail y llinhad, a’r malw, a berw mewn llaeth, a dod o beutu’r ar liain manwe.

ARALL

92. Rhostia wiau yn galed, a thyn y melyn a gwna’n bylor mân, a gwna’n eliw, a gwasg ef drwy gadach lliain, a dod ar y wialen, ag y mae’n dda rhag y gwst mawr a fo mewn asgwrn, a rhag amrafael glefydau eraill.

ARALL

93. Cais floneg yr Affrig* a chennin, a dod yn blaser wrth y wialen, ag iach y bydd. Ti a elli ymarfer a’r plasder hwn gyda’s meddyginiaeth nesaf o’r blaen at hwn, a da fydd hynny.

I BERI I’R BLODAU GERED AR WRAIG

138. Cymmer dafod yr hydd (or hÿdd), a berw mewn dwr yn ffest, a rhoi yn glaiardwym i yfed, ag iach y bydd.

RHAG PISO GWAED

139. Pwya arlleg a brew mewn llaeth yn yr amser, ai yfed nos a bore, i iach y bydd.

RHAG TRAU NATTUR AR WRAIG, A RHAG GORMODD O FLODAU

140. Cymmer risg derwen ifanc o’r hanner at yr haul, a thynn o’r bôn tua’r brig, a thynn yr uchaf ymaith, a briw yn dra mân mewn llaeth buwch unlliw, a chymmer werth ceiniog o saffar yn bylor mân, a brew y cyfan yn dda ar dan araf, a chwedyn ei hidlo ai yfed y bore a’r nosy n dair diod neu chwaneg, ag yn wir iach y bydd trwy Dduw, Amen.

RHAG GWAYW Y FAM A LLEWYGON

142. Cymmer gan gwenith, a dwr yn oer, ai yfed yn dair diod, ag iach a fydd yn gwir, gyda nerth Duw.

I WRAIG A FO AI FFRWYTH YN CERDDED GORMODD

143. Cymmer flwr gwenith a llefrith yn oer, ag yfed ef felly, ag iach y budd yn wir.

RHAG Y FAM YN CODI AR WRAIG

144. Cais gymaint o ffafen o'r tus, a dod ar dri marweryn a chymmer y tARTH i'th enau, ag ef a ostwng yr hywydd, ag hefyd cymmer *gorn y car wag arfer ef un yr un modd, a iach y fyddi.

RHAG Y FAM O'R BYDD YN CWNNU AR WRAIG YN HWYDDEDIG O'R CYLLA

146. Cymmer isob, a'r llysiâu llwydon, a gwna ddiod ag hwynt trwy hen gwrw iachus, a hidla'n lan trwy liain wedi'r brew, a dyro i'r wraig dair diod ar dri phryd, ag ef a estwng y clwyf yn wir, a dda yw'r ddiod honn rhag y *tostedd a'r cyllwst, o herwydd y llysiâu llwydon sy dda i'r clefydau hynny yn wir, ag felly rhag pob gwynnogwst yng nghorph dyn, ai un y cylla, ai yn y *llynnor.

I WR WEDI EI LOSGI GAN WRAIG

445. Cymmer linod, a llaeth geifr gwynnon, a brew yn iwd, a dod werth y wialen beuparth iddi; profedig yw.